

Adolygiad â Phwyslais Penodol: Atal a Rheoli Heintiau, Dogfennaeth Gofal Cleifion ac Achosion o Atal yn Gorfforol (Dirybudd)

Ysbyty Annibynnol Hillview

Dyddiad arolygu: 23-24 Chwefror 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
	Ansawdd Profiad y Claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	14
3.	Beth nesaf?	17
4.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	18
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol	20
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â phwyslais penodol o Ysbyty Iechyd Meddwl Annibynnol Hillview, a gynhaliwyd yn ddirybudd, ar noson 23 Chwefror a thrannoeth, 24 Chwefror 2021.

Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd

Ysbyty Annibynnol yw Hillview ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl plant a'r glasoed i ferched rhwng 13 (tair ar ddeg) a 18 (deunaw) oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder meddyliol ac a all gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae tair ward yn yr ysbyty:

- Ward Brenin – uned â 9 gwely, a ddefnyddir ar gyfer derbyniadau
- Ward Ebbw – ward â 9 gwely. Ward bontio, gyda'r holl dderbyniadau o Ward Tŷ Seren ar lwybr rhyddhau dynodedig.

Sut y gwnaethom hyn?

Roedd y tîm yn cynnwys dau aelod o staff AGIC a gefnogwyd gan Nyrs Atal a Rheoli Heintiau o'r bwrdd iechyd lleol ar fore 24 Chwefror 2021. Cafodd yr adolygiad ei gynnal dros gyfnod o noson ac un diwrnod llawn a chanolbwyntiodd yn benodol ar y canlynol:

- Atal a Rheoli Heintiau
- Cynlluniau Gofal Cleifion
- Data ar achosion o atal yn gorfforol
- Llywodraethu ac archwilio.

Dyma oedd ail ymweliad AGIC ers mis Ionawr 2021. Pwrpas yr arolygiad hwn oedd asesu a wnaed gwelliannau digonol i fynd i'r afael â'r materion y gwnaethom eu canfod yn ystod ein hymweliad ym mis Ionawr 2021. Roedd angen mynd ar drywydd y materion isod yn ystod ein hymweliad blaenorol:-

- O edrych ar gynlluniau gofal a thriniaeth nodwyd nifer o bryderon. Yn benodol, nid oedd rhai cynlluniau gofal yn cynnwys manylion penodol ynglŷn â sut mae angen rheoli risgiau a nodwyd. Roedd gofal clwyfau hefyd yn cael ei ddogfennu'n wael o ran sut y dylai'r staff fonitro clwyfau i gofnodi a oeddent yn gwella/dirywio.

- O edrych ar y data cynhwysfawr ar atal yn gorfforol nodwyd bod niferoedd mawr o achosion o atal yn gorfforol yn digwydd. Er bod y niferoedd yn cynnwys data ar gyfer cleifion a fyddai'n cael eu hatal yn gorfforol pan oeddent yn cael eu bwydo drwy diwb nasogastrig¹ a chleifion a oedd yn cael eu hatal yn gorfforol drwy ddulliau "meddal", ymddangosai fod nifer yr achosion o atal yn gorfforol yn rhy uchel.

Roedd angen i ni hefyd archwilio a oedd mesurau atal a rheoli heintiau cadarn yn cael eu rhoi ar waith yn dilyn achosion o COVID-19 am yr eildro yn yr ysbyty.

¹ Proses feddygol yw'r defnydd o diwb nasogastrig, lle caiff tiwb plastig ei osod drwy'r trwyn, heibio'r gwddf, ac i lawr i'r stumog.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, nodwyd pryderon gennym mewn perthynas ag amllder yr achosion o atal yn gorfforol, a'r diffyg manylder disgrifiadol a gofnodir pan fydd achosion o'r fath.

Er bod gwelliannau wedi'u cwblhau mewn perthynas â dogfennaeth gofal cleifion, gwelsom rai agweddau ar gynlluniau gofal ac asesiadau risg yr oedd angen eu gwella ymhellach.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad
- Roedd gan y staff wybodaeth dda iawn am y cleifion a'u hanghenion gofal
- Roedd cynlluniau gofal y cleifion yn dangos eu bod yn gwella.

Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio mewn nifer o feysydd fel y nodir isod:

- Gwella dogfennaeth a chofnodi'r defnydd o Ymyriadau Corfforol Cyfyngol (RPI)
- Y ffordd y caiff cynlluniau gofal eu cwblhau
- Asesiadau risg cadarn.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth.

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth o gyfleoedd addysgol, gweithgareddau hamdden a therapïau ar gael i'r cleifion, yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Urddas a pharch

Nodwyd bod pob cyflogai, staff y ward a'r uwch-reolwyr yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi; roedd hyn yn dangos bod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd ymatebol a gofalgar.

Roedd polisïau'r ysbyty a'r arferion staff a welsom yn helpu i gynnal urddas y cleifion a gwella'r gofal unigol yn yr ysbyty.

Roedd Datganiad o Ddiben y darparwr cofrestredig hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn helpu'r cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd prosesau sefydledig ar waith i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Gwelsom, yn y rhan fwyaf o achosion, fod y staff yn cwblhau'r prosesau a'r dogfennau clinigol fel sy'n ofynnol.

Roedd y staff yn llawn gwybodaeth am y cleifion.

Gwelsom fod angen gwella rhai agweddau ar ddogfennaeth gofal ac asesiadau risg y cleifion er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Nodwyd diffyg manylion yn nogfennaeth y cleifion am gofnodi achosion o atal yn gorfforol, ymddygiadau hunan-niweidiol a sut y rheolir y risgiau hyn a nodwyd.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Fel y nodwyd yn ystod ein harolygiadau blaenorol, roedd gan Ysbyty Hillview brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty; roedd y rhain yn parhau i fod ar waith ar adeg yr arolygiad hwn. Fodd bynnag, ar ôl ein hymweliad ar 21 Ionawr 2021, roeddem yn poeni am y nifer uchel o achosion o atal yn gorfforol a oedd yn digwydd. Er bod y niferoedd yn cynnwys data ar gyfer cleifion a fyddai'n cael eu hatal yn gorfforol pan oeddent yn cael eu bwydo drwy diwb nasogastrig a chleifion a oedd yn cael eu hatal yn gorfforol drwy ddulliau "meddal", ymddangosai fod nifer yr achosion o atal yn gorfforol yn rhy uchel.

Yn dilyn yr arolygiad ar 21 Ionawr 2021, derbyniodd AGIC ddogfennaeth gan y darparwr cofrestredig a geisiodd gategoreiddio'n well y data ar achosion o atal yn gorfforol a dangos bod niferoedd yr achosion hyn yn gymesur ac yn angenrheidiol. Ni ddarparodd y ddogfennaeth bellach ddigon o sicrwydd ynghylch y pryderon a godwyd yn yr arolygiad blaenorol, ac o ganlyniad i'r pryderon sy'n parhau heb eu datrys, arweiniodd hyn at ymweliad pellach â'r ysbyty ar 23 Chwefror 2021.

Gwnaethom siarad â'r staff a'r cleifion yn ystod yr arolygiad a gwnaethom edrych ar ddogfennaeth, polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag atal yn gorfforol a sut y caiff achosion eu disgrifio a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Gwnaethom edrych ar dabl cyffredinol o achosion o atal yn gorfforol, nifer o adroddiadau cryno ar ddogwyddiadau a nodiadau cleifion unigol er mwyn archwilio'r mater hwn. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a ddywedodd wrthym fod achosion o atal yn gorfforol yn digwydd yn ddyddiol oherwydd natur y cleientiaid.

O ran llywodraethu a gwybodaeth gofnodedig, cafwyd sicrwydd annigonol, pan fydd cleifion yn cael eu hatal ar eu cefn yn llwyr am 10 munud neu'n fwy, fod hyn yn gymesur â'r risg a gyflwynwyd, yn para cyn lleied â phosibl ac mai dyma oedd y dewis olaf un. Gwelsom o'r ddogfennaeth fod rhai o'r achosion o atal yn gorfforol wedi para awr a mwy.

O ganlyniad gwnaethom gyflwyno Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio mewn perthynas â thorri Rheoliadau 15 (1) (a), (b) ac (c) a Rheoliad 16 (2) (b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 mewn perthynas â diogelu ac ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y darparwr cofrestredig eisoes wedi dechrau dadansoddiad cynhwysfawr o 3 set o gofnodion cleifion a oedd yn cynnwys manylion a hyd yr achosion o atal cleifion yn gorfforol. Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dadansoddiad cynhwysfawr hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer pob claf a'i fod yn nodi union fanylion pob achos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Yn ystod yr arolygiad hwn, cawsom ein cefnogi gan Nyrs Atal a Rheoli Heintiau o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Pwrpas ei hychwanegu at y tîm arolygu oedd er mwyn iddi ddarparu arbenigedd a'n galluogi i edrych ar y ffordd yr oedd y darparwr cofrestredig wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cawsom y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys y rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol a'r canllawiau pellach a gyflwynwyd mewn perthynas â COVID-19. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiadau risg COVID-19 ar waith ar gyfer yr holl staff a'r cleifion a bod yr asesiadau hyn wedi'u diweddarau. Cawsom wybod bod cynlluniau wrth gefn wedi cael eu rhoi ar waith yn gynnar a bod ystafell ynysu ar gael lle y gellid rhoi gofal priodol i gleifion yr amheuid bod ganddynt COVID-19 er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol ym maes trosglwyddo COVID-19. Yn ogystal, darparwyd hyfforddiant ar wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol gan y staff, ond ni welsom bosteri cyfarwyddyd mewn ardaloedd clinigol a staffio yn rhoi gwybod i'r staff am ofynion cyfarpar diogelu personol. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod posterï ar gael i atgoffa'r staff o ofynion cyfarpar diogelu personol a sut i'w wisgo a'i ddiosg.

Roedd manau diheintio dwylo ar gael ar y wardiau, ond nid oedd posterï techneg hylendid dwylo i'w gweld. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod posterï'n cael eu harddangos i atgoffa a chynorthwyo'r staff, y cleifion ac ymwelwyr o bwysigrwydd technegau hylendid dwylo cywir.

Roedd tystiolaeth o staff yn gwisgo masgiau wyneb ond nodwyd ar noson gyntaf yr arolygiad fod yna adegau pan oedd y staff yn gwisgo'r masg ond yn ei wisgo'n anghywir. Yn ogystal, nid oedd y staff a welsom yn y meysydd parcio yn cadw pellter cymdeithasol ac nid oedd rhai o'r staff yn gwisgo masgiau. Hysbyswyd y Rheolwr Cofrestredig am hyn a dywedodd wrthym fod systemau cadarn ar waith i ddelio â'r staff a oedd yn methu â chydymffurfio â'r gofynion i wisgo magiau wyneb.

Cafodd y Darparwr Cofrestredig ei atgoffa hefyd o'r gofyniad i'r staff gydymffurfio â'r dull 'noeth o dan y penelin' i reoli heintiau'n effeithiol. Yn ogystal, gwnaethom argymhell y dylai'r holl staff gael eu hannog i newid i mewn ac allan o ddillad gwaith ar ddechrau ac ar ddiwedd pob sifft.

Gwnaethom fynegi pryderon am y lle swyddfa ar y wardiau yn ystod yr arolygiad. Roedd y staff yn ymgynnull yn ardaloedd y swyddfeydd, sef ardaloedd bach a chyfyng ac, o ganlyniad, nid oeddent yn cadw pellter cymdeithasol. Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg COVID-19 ar waith ar gyfer ardaloedd y swyddfeydd er mwyn sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol.

Yn ogystal, gwelsom staff yn paratoi diodydd ac yn bwyta yn swyddfa staff y ward. Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod y staff yn bwyta ac yn yfed mewn amgylchedd addas ac yn cael egwyl o'r wardiau i fwyta.

Gwnaethom hefyd gynghori'r Rheolwr Cofrestredig i gymryd y camau canlynol fel bod modd glanhau'r ardaloedd yn fwy effeithiol:

- Tacluso swyddfeydd fel bod modd eu glanhau'n gyflym ac yn effeithiol

- Cyflwyno amserlenni glanhau ar gyfer pob gweithfan
- Sicrhau bod yr amserlen glanhau yn nodi bod angen glanhau ardaloedd cymunedol ddwywaith y dydd (Ardaloedd eistedd a thoiledau ac ystafelloedd ymolchi a rennir)
- Sicrhau bod cynhyrchion glanhau fel weips neu chwistrelli ar gael yn ardaloedd y staff i'w gwneud yn haws i lanhau a dihalogi ardaloedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau:

- Bod y staff yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwisgo masgiau wyneb
- Bod y staff yn cadw pellter cymdeithasol yn y maes parcio
- Bod posteri gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol a thechnegau hylendid dwylo da yn cael eu harddangos yn yr ysbyty.
- Bod y staff yn cydymffurfio â'r gofynion 'noeth o dan y penelin'
- Bod y staff yn cadw pellter cymdeithasol yn ardaloedd y swyddfeydd
- Nad oes neb yn bwyta nac yn yfed yn swyddfa'r staff
- Bod gan ardaloedd y swyddfeydd asesiadau risg ar waith i adlewyrchu uchafswm niferoedd y staff
- Bod ardaloedd y swyddfeydd yn cael eu tacluso
- Bod amserlenni glanhau ar gyfer gweithfannau ac ardaloedd cymunedol yn cael eu cyflwyno
- Bod cynhyrchion glanhau ar gael yn ardaloedd y staff.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Edrychwyd ar gynlluniau gofal pedwar claf i gyd.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol yn cyfeirio at gryfderau'r person ifanc

unigol ac yn canolbwyntio ar wellhad ac annibyniaeth. Roedd y rhain wedi cael eu datblygu gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol.

Nodwyd yr arsylwadau cadarnhaol canlynol ers yr arolygiad diwethaf

- Roedd y cynlluniau gofal yn cynnwys mwy o fanylion ers ein hymweliad diwethaf
- Roedd y cynlluniau gofal ar gyfer clwyfau yn fwy manwl a chynhwysfawr.

Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach o hyd. Yn ystod adolygiad o ddogfennau gofal ac asesiad risg un claf, nodwyd digwyddiad gennym lle ceisiodd y claf glymu cwlwm. Yn dilyn y digwyddiad, cytunodd y claf i gael ei roi mewn dillad gwrthglymu ond, ni chafodd "cofnod arsylwi pedair awr ar hugain", asesiad risg na chynllun gofal y claf eu diweddarau yn dilyn y digwyddiad. Mae'r oedi wrth ddiweddarau'r dogfennau hyn yn golygu na all asesiadau risg y claf adlewyrchu'n gywir y risg a gyflwynir gan y claf unigol o safbwynt byw.

Fel y nodwyd yn yr adran uchod ar reoli risg, aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â chynlluniau gofal o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Golygai hyn i ni ysgrifennu at y Darparwr Cofrestredig yn syth ar ôl yr arolygiad oherwydd nid oedd cynllun gofal a welwyd yn mynd i'r afael yn ddigonol â meysydd risg dynodedig claf a oedd yn niweidio ei hun. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel a thrwy gydol yr arolygiad roeddent yn barod i dderbyn ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd rheolwyr y wardiau yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dimau ymroddedig ar y wardiau. At ei gilydd, siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r gefnogaeth a oedd yn cael eu darparu gan reolwyr pob ward, ynghyd â chefnogaeth dda rhwng y wardiau.

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Roedd yn gadarnhaol clywed bod cynlluniau gofal ar gyfer clwyfau wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol ac roedd rhywfaint o waith archwilio a dadansoddi yn ymwneud ag atal yn gorfforol wedi dechrau. Fodd bynnag, rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ei brosesau llywodraethu'n sicrhau bod systemau craffu a goruchwyllo digonol ar waith ar gyfer materion sy'n codi yn sgil archwiliadau mewnol ac adolygiadau allanol, fel arolygiadau AGIC, a bod gwersi ehangach o'r rhain yn cael eu cymhwyso, eu gweithredu a'u cynnal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac archwilio'n cael eu hymgorffori'n ddigonol ym mhob rhan o'r ysbyty.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom waith tîm da ar y wardiau. Roedd yn gadarnhaol clywed yr effaith a'r budd sylweddol yr oedd disgyblaethau gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol a chydlynwyr gweithgareddau'n eu cael ar y grŵp cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod nifer o gleifion angen cael eu bwydo drwy diwb nasogastrig. Nododd y staff fod hyn yn gofyn am lawer o adnoddau a dywedwyd wrthym nad oedd llawer o'r staff wedi'u hyfforddi yn hyn o beth. Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig wneud yn siŵr bod niferoedd digonol o staff wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig wneud yn siŵr bod niferoedd digonol o staff wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y cleifion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Edrychwyd ar y niferoedd staffio yn Regis Healthcare o gymharu â'r hyn a nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y tîm amlddisgyblaethol wedi hen ymsefydlu. Roedd y cofnodion a welwyd gennym a'r sgysiau a gawsom â'r staff yn dangos bod gwaith tîm amlddisgyblaethol a chydweithredol yma.

Roedd y lefelau staffio i'w gweld yn briodol i gadw'r cleifion yn ddiogel yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad. Roedd yn gadarnhaol nodi bod Cydgysylltydd Nos dynodedig â chyfrifoldeb am yr ysbyty yn gweithio pob sifft nos. Roedd y rôl hon yn cynnig arweinyddiaeth a chefnogaeth i staff y wardiau. Roedd y Cydgysylltydd Nos a welwyd ar noson gyntaf yr arolygiad yn gallu darparu gwybodaeth hanfodol am staff a chleifion yr ysbyty. Roedd hyn yn dangos bod gweithrediad yr ysbyty yn ystod y nos yn cael ei oruchwylio'n glir.

Dywedodd y staff wrthym ei bod yn hawdd mynd at aelodau tîm rheoli'r ysbyty a'u bod yn weladwy. Nododd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt yr hyder i siarad â'r tîm rheoli os oedd angen iddynt godi materion neu bryderon.

Edrychwyd ar yr ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel ar y cyfan.

Mae'r meysydd i'w gwella a nodir yn adran "Darparu gofal diogel ac effeithiol" yr adroddiad hwn yn tanlinellu'r angen i wella systemau archwilio a llywodraethu mewn perthynas â chynllunio gofal ac arfer a chofnodi digwyddiadau atal yn gorfforol.

Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol ac yn galonogol gweld bod y darparwr cofrestredig wedi dechrau rhoi prosesau ar waith ers ein harolygiad diwethaf i gynnal dadansoddiad cywir a manwl o ddata ar atal yn gorfforol. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth er mwyn monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau a safonau perthnasol. Er na chafodd argymhelliad penodol ei wneud yn hyn o beth, y disgwyl yw y bydd tystiolaeth o welliant amlwg o ran hyn erbyn yr arolygiad nesaf.

3. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

4. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Ni chaiff y gwasanaeth unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Ymdriniwyd â'r holl Bryderon uniongyrchol o dan ein cynllun gwella uniongyrchol a amlinellir yn Atodiad B

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Cyfeiriwch at Atodiad B i weld y Cynllun Gwella Uniongyrchol			

Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Hillview

Ward/uned(au): Wardiau Brenin, Ebbw a Thŷ Seren

Dyddiad arolygu: 23-24 Chwefror 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu i'w cymryd	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig roi sicrwydd bod asesiadau risg a dogfennau cynllunio gofal cynhwysfawr a chadarn wedi'u cwblhau ar gyfer y claf ar Ward Ebbw a geisiodd niweidio'i hun. Ni chafodd cofnod y claf ei ddiweddarau i adlewyrchu'r risg gyfredol.</p> <p>Rhaid i ddogfennau'r cleifion nodi risgiau'n ddigonol bob amser a darparu fframwaith cadarn i'r staff reoli'r risgiau hynny a'r gofal i'r cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol</p>	<p>Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 15 (1) (a) (b) nac (c) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 o ran ansawdd y driniaeth a'r</p>	<p>Cafodd adborth gan arolygwyr AGIC ei rannu â thîm yr ysbyty. Mae'r holl staff wedi cael gwybod ac mae'n ofynnol iddynt ddiweddarau Asesiadau Risg a Chynlluniau Gofal o fewn y patrwm sifftiau pan fydd hi'n glinigol ddiogel iddynt wneud hynny. Bydd hyn yn cael ei ailadrodd ym mhob trosglwyddiad a goruchwyliaeth glinigol. Ar ôl pob digwyddiad, bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb a'r Nyrs Gofrestredig gefnogol yn</p>	<p>Ashburn Svinurai</p>	<p>01/03/21</p>

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu i'w cymryd	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gwasanaethau eraill a ddarperir	diweddarau dogfennau gofal y person ifanc ar ôl iddynt ddatrys y digwyddiad a sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn ddiogel. Bydd y cydgysylltydd uned, y nyrs â chyfrifoldeb neu'r Rheolwr ar alw sicrhau bod y staff yn diweddarau'r dogfennau gofal ac yn eu cymell i wneud hynny.		
Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig ddangos bod achosion o atal yn gorfforol yn digwydd am yr amser byrraf posibl a bod y staff wedi gwerthuso'n rheolaidd, yn ystod yr achos, a allai fod wedi dod i ben yn gynt. Rhaid i'r wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani ddarparu dadansoddiad cynhwysfawr sy'n dogfennu ac yn nodi manylion achosion o atal yn gorfforol.	Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 15 (1) (a), (b) nac (c) o Reoliad 16 (2) (b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 o ran diogelu ac ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir	Mae'r darparwr, Regis Healthcare Ltd - RHL (Ysbyty Hillview) wedi ymgysylltu â gwasanaethau tebyg er mwyn ceisio meincnodi lefelau atal yn gorfforol yng ngwasanaethau unedau diogelwch isel Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae Hillview, yn ei ymgais i sicrhau drwy'r amser fod achosion o atal yn gorfforol yn gymesur, yn rhan o gynllun gofal y person ifanc a bob amser yn cael eu defnyddio pan fetho popeth arall wedi neilltuo tua £20000.00 yn hyfforddiant hyfforddi'r hyfforddwyr ei staff ei hun er mwyn dechrau hyfforddi staff sy'n rhan o wasanaeth yr ysbyty. Mae gwerthoedd RHL (Gofal, Tosturi, Dewder, Cyfathrebu, Ymrwymiad a Chymhwysedd) yn ganolog i'r ffordd y		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu i'w cymryd	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>mae'n cyflwyno'r hyfforddiant sy'n pwysleisio o'r newydd "llonyddu cyn gafael yn gorfforol" bob amser." Bydd yr hyfforddwyr yn hyrwyddwyr ac yn fodelau rôl dros leihau'r defnydd o dechnegau atal yn gorfforol drwy hefyd ddefnyddio gwybodaeth/sgiliau cymorth ymddygiad cadarnhaol. Byddant wedi'u lleoli ar wardiau pan nad ydynt yn tiwtora ac yn hyfforddi eraill a fydd yn helpu i sefydlu arferion a diwylliant ymhellach. Byddant yn fodelau rôl delfrydol ac yn dangos/hyrwyddo'r defnydd o ymyriadau llafar.</p> <p>Mae data diweddar ar achosion o atal yn gorfforol yn Ysbyty Hillview (RHL) yn dangos lleihad o fis i fis o ran nifer yr achosion o atal yn gorfforol yn yr ysbyty ac mae RHL yn ystyried sut y gellid eu lleihau ymhellach. Nodwyd hefyd fod RHL yn gwneud defnydd anfyfych iawn o "dulliau cemegol o atal yn gorfforol" a bydd yn parhau i fonitro'r duedd hon er mwyn sicrhau nad yw'n dibynnu ar "dulliau cemegol o atal yn gorfforol".</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu i'w cymryd	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae'r tîm yn Ysbyty Hillview yn gweithio'n galed i sicrhau, os oes angen gafael mewn claf yn gorfforol, mai dim ond pan fetho popeth arall y mae'n digwydd, a hynny am gyn lleied o amser ag y bo modd tra'n sicrhau diogelwch, preifatrwydd ac urddas y claf bob amser.</p> <p>Mae'r ffurflenni adolygu digwyddiad sy'n cael eu cwblhau gan y staff yn ystod pob digwyddiad yn cynnwys adran lle mae'n rhaid iddynt nodi pa ymyriadau a ddefnyddir yn ystod y digwyddiad er mwyn gostwng lefel gofid meddwl y person ifanc. Mae'r ffurflen yn rhoi cyfle i'r staff nodi technegau a ddefnyddir cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad, pa mor llwyddiannus ydynt ac am faint o amser y cânt eu defnyddio. Mae hyn yn rhoi mwy o ddata i'r tîm fonitro'r strategaethau effeithiol a ddefnyddir gyda phob person ifanc y mae'r tîm ehangach yn cael ei hysbysu amdanynt. Mae'r gallu i gofnodi gwybodaeth cyn, yn ystod neu ar ôl "digwyddiad" wedi cael ei ychwanegu'n ddiweddar er mwyn</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu i'w cymryd	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>darparu rhagor o ddata i gefnogi'r person ifanc a'r tîm gofal.</p> <p>Hefyd, mae'r tîm gofal yn gweithio yn unol â 'rheol 9 munud' ar gyfer digwyddiadau lle mae angen gafael mewn claf er mwyn sicrhau diogelwch person ifanc. Fel rhan o'r 'rheol 9 munud' bydd y tîm sy'n cynorthwyo'r person ifanc yn ystyried a oes angen iddo gael ei ddal er mwyn ei ddiogelwch bob naw munud ac yn gweithio i ryddhau daliadau ar yr un pryd. Os bernir ei bod yn glinigol angenrheidiol i'r staff (y nyrs â chyfrifoldeb/"arweinydd y digwyddiad" yn bennaf). Mae'n rhaid i'r staff hefyd gynnal "ôl-drafodaethau ar ôl atal yn gorfforol" â'r person ifanc er mwyn canfod beth oedd ei brofiad o gael ei atal yn gorfforol a dysgu ohono. Mae adran orfodol i'w chwblhau gyda'r rhesymeg dros hyn ar gyfer pob math o ddaliad. Ailbwysleisir y rhesymeg dros hyn i staff yn ystod hyfforddiant sefydlu, sesiynau hyfforddiant ychwanegol, cyfnodau trosglwyddo, cyfarfodydd boreol ac mewn cynlluniau gofal. Mae'n ofynnol</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu i'w cymryd	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>hefyd i'r staff (y nyrs â chyfrifoldeb yn bennaf) gynnal "ôl-drafodaethau ar ôl atal yn gorfforol" â staff er mwyn ailddatgan arferion da a dysgu oddi wrth ei gilydd sut y gallent fod wedi atal y claf er mwyn rhoi gwell profiad i'r person ifanc a'r tîm o staff.</p> <p>Yn ystod arolygiad AGIC ym mis Chwefror 2021, darparwyd llawer o ddata i'r tîm mewn perthynas ag achosion o atal yn gorfforol/daliadau diogel a'r manylion perthnasol. Fel y nodwyd uchod, fel rhan o'r ffurflenni adolygu digwyddiadau, mae yna adran orfodol i'r staff gofnodi ymyriadau eraill</p> <p>Mae Regis Healthcare Ltd hefyd wedi dechrau Cylchlythyr Ymarfer Atal yn Gorfforol/Lleiaf Cyfyngol a gaiff ei gyhoeddi bob deufis er mwyn meithrin diwylliant o ymddygiadau ac arferion "lleiaf cyfyngol"</p>		

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Hillview Regis

Ward/uned(au): **Wardiau Brenin, Ebbw a Thŷ Seren**

Dyddiad arolygu: **23-24 Chwefror 2021**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig wneud yn siŵr bod y staff yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwisgo masgiau wyneb.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae Ysbyty Hillview yn gweithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth mewn perthynas â sicrhau bod yr holl aelodau o staff yn gwisgo masgiau wyneb cyfarpar diogelu personol. Wrth iddynt gyrraedd yr ysbyty, bydd y warden(iaid) COVID yn cyfarch pob	Wardeniaid COVID	05/04/2021 (parhaus)

		<p>aelod o'r staff ac ymwelydd i'w hatgoffa o'r angen i wisgo masgiau wyneb (mae masgiau ar gael yn y dderbynfa). Mae masgiau'n orfodol ym mhob rhan o'r safle. Fel rhan o'u rôl, bydd y warden(iaid) COVID yn cynnal archwiliadau rheolaidd ym mhob rhan o'r ysbyty i sicrhau bod pawb yn gwisgo masgiau wyneb. Nodir unrhyw ddiffyg cydymffurfio a rhoddir gwybod i'r uwch-dîm. Ymdrinnir â diffyg cydymffurfio mynych drwy bolisi a gweithdrefnau adnoddau dynol.</p> <p>Yn ogystal, ceir posteri sy'n atgoffa'r staff bod yn rhaid i bawb wisgo masgiau wyneb tra byddant ar safle Ysbyty Hillview, a sut i'w gwisgo'n gywir.</p>		
Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod posteri gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol a hylendid dwylo da yn cael eu harddangos yn yr ysbyty.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae gan Ysbyty Hillview fannau diheintio dwylo mewn manau cyson ar hyd a lled yr ysbyty, a phob un â'r arwyddion angenrheidiol arnynt. Yn ogystal, ceir arwyddion ac anfonir nodiadau atgoffa at y staff yn eu hatgoffa o'r weithdrefn	Lee Davies	05/04/2021 (parhaus)

		<p>'gwisgo a diosg' gywir mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol.</p> <p>Mae biniau pedal melyn ychwanegol wedi'u harchebu i sicrhau cydymffurfiaeth bellach â'r protocol rheoli heintiau wrth 'wisgo a diosg' cyfarpar diogelu personol.</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r gofynion 'noeth o dan y penelin'.</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Nodir yn glir ym mholisi rheoli heintiau Ysbyty Hillview y gofynion 'noeth o dan y penelin'. Ailddosbarthwyd hwn i'r staff, ynghyd â phosteri ychwanegol, memoranda a chanllawiau yn atgoffa'r staff o'r rheidrwydd amdano.</p> <p>Fe'i hychwanegwyd at ddogfennau asesu risg COVID-19, o'r gofynion 'noeth o dan y penelin'.</p>	<p>Ashburn Svinurai</p>	<p>05/04/2021 (parhaus)</p>
<p>Mae'n rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod y staff yn cadw pellter cymdeithasol yn ardaloedd y swyddfeydd</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Mae Ysbyty Hillview yn gweithio gyda'r staff i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol mewn swyddfeydd ac ar safle'r ysbyty.</p>	<p>Lee Davies a thîm wardeniaid COVID.</p>	<p>05/04/2021 (parhaus)</p>

		<p>Anfonwyd nodiadau atgoffa at yr holl staff yn nodi pwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol yn unol â rheoliadau COVID-19. Rhoddwyd arwyddion i fyny ar ddrysau pob ardal swyddfa yn nodi'n glir uchafswm nifer y staff sy'n gallu bod yn y lle ar unrhyw adeg.</p> <p>Atgoffir pob ymwelydd o'r angen i gadw pellter cymdeithasol ac mae lleoliadau ar gyfer ymweliadau o faint digonol i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol.</p>		
Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau nad yw'r staff yn bwyta yn swyddfa'r staff.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	<p>Mae Ysbyty Hillview wedi atgoffa pob aelod o'r staff na ddylid bwyta wrth y gorsafoedd nyrsio. Cafodd hyn ei gyfleu i'r staff drwy'r platfform anfon negeseuon at staff (Tanda) a hefyd drwy bosteri yn yr ardaloedd yn atgoffa'r staff.</p> <p>Mae'r Uwch-dîm Rheoli'n cwblhau archwiliadau 'cerdded o gwmpas' rheolaidd i sicrhau bod y gorsafoedd nyrsio'n glir o annibendod a bwyd. Yn ogystal, mae'r wardeniaid COVID yn cynnal gwiriadau rheolaidd er mwyn monitro hyn.</p>	Ashburn Svinurai, Lisa Thomas Gray	05/04/2021 (parhaus)

<p>Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod gan y swyddfeydd asesiadau risg ar waith i adlewyrchu uchafswm niferoedd staffio diogel.</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Mae Ysbyty Hillview wedi adolygu a diweddarau asesiadau risg COVID-19 y gwasanaeth i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion angenrheidiol.</p> <p>Mae arwyddion priodol wedi'u harddangos ar ddrysau pob swyddfa yn atgoffa'r staff o'r uchafswm niferoedd diogel ym mhob ystafell.</p> <p>Mae arweinydd Iechyd a Diogelwch y gwasanaeth, ynghyd â'r Uwch-dîm Rheoli yn cynnal 'gwiriadau o gwmpas y ward' rheolaidd er mwyn sicrhau y glynir wrthynt.</p>	<p>Lee Davies</p>	<p>05/04/2021 (parhaus)</p>
<p>Mae'n rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod ardaloedd y swyddfeydd yn cael eu tacluso.</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Fel rhan o'r adolygiad a diweddarau asesiadau risg COVID-19, atgoffwyd y staff bod angen tacluso'r swyddfeydd. Yn ogystal, mae arwyddion priodol pellach wedi'u harddangos yn atgoffa'r staff bod angen tacluso'r swyddfeydd.</p>	<p>Ashburn Svinurai, Lee Davies</p>	<p>05/04/2021 (parhaus)</p>

		Mae arweinydd Iechyd a Diogelwch y gwasanaeth, ynghyd â'r Uwch-dîm Rheoli yn cynnal 'gwiriadau o gwmpas y ward' rheolaidd er mwyn sicrhau y glynir wrthynt.		
Mae'n rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod amserlenni glanhau ar gyfer gorsafoedd gwaith ac ardaloedd cymunedol yn cael eu cyflwyno.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	<p>Fel rhan o'r adolygiad a diweddarau asesiadau risg COVID-19, atgoffwyd y staff bod angen glanhau'r swyddfeydd yn rheolaidd. Yn ogystal, mae arwyddion priodol pellach wedi'u harddangos yn atgoffa'r staff bod angen glanhau gorsafoedd gwaith ac ardaloedd cymunedol.</p> <p>Darparwyd deunyddiau glanhau ychwanegol a chyflwynwyd amserlenni glanhau ar gyfer swyddfeydd ac ardaloedd cymunedol. Ychwanegwyd hyn hefyd at y polisi a'r amserlen Cadw Tŷ a Chynnal a Chadw.</p> <p>Mae arweinydd Iechyd a Diogelwch y gwasanaeth, ynghyd â'r Uwch-dîm Rheoli yn cynnal 'gwiriadau o gwmpas y</p>	Cadw tŷ	05/04/2021 (parhaus)

		<p>ward' rheolaidd er mwyn sicrhau y glynir wrthynt.</p> <p>Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag asesiadau risg COVID-19 a'r pwyntiau uchod, mae Ysbyty Hillview wedi atal y staff rhag rhannu desgiau ac mae'n atgoffa'r staff o'u cyfrifoldeb i lanhau'r ardaloedd gwaith. Mae arwyddion ychwanegol wedi'u harddangos i atgoffa'r staff o hyn.</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod cynhyrchion glanhau ar gael yn ardaloedd y staff.</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Mae gan bob gorsaf waith ac ardal gymunedol gyflenwad o weips glanhau arwynebau gwrthfacterol a biniau i gael gwared ar y rhain yn ddiogel.</p> <p>Mae'r staff yn ymwybodol o ble mae'r cyflenwadau ychwanegol os bydd eu hangen. Mae arwyddion ychwanegol yn atgoffa'r staff i lanhau eu gorsaf waith ac mae'r amserlen lanhau hefyd wedi'i rhoi ar waith.</p>	<p>Yr holl Staff a'r tîm cadw tŷ.</p>	<p>05/04/2021 (parhaus)</p>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac archwilio'n cael eu hymgorffori'n ddigonol ym mhob rhan o'r ysbyty.</p>	<p>1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd</p>	<p>Mae calendr archwilio ar waith i adolygu'r prosesau a'r ddogfennaeth glinigol ym mhob rhan o'r ysbyty. Yn ogystal, caiff archwiliadau cadarn o gynlluniau gofal eu cynnal ddwywaith yr wythnos a chaiff rhybuddion awtomataidd (gyda phrosesau uwchgyfeirio wedi'u hymgorffori) eu gosod i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddogfennaeth. Mae'r tîm yn ymroi i sicrhau y caiff y prosesau hyn eu hymgorffori ym mhob rhan o'r ysbyty.</p>	<p>Lisa Thomas Gray</p>	<p>05/04/2021 (parhaus)</p>

		<p>Mae'r tîm yn Ysbyty Hillview yn hyrwyddo'r ffaith bod pawb yn gyfrifol am archwiliadau; rhennir y dyletswyddau hyn ymhlith aelodau'r tîm er mwyn eu hymgorffori ymhellach yn niwylliant y gwasanaeth</p> <p>Mae polisi archwilio clinigol y gwasanaeth wrthi'n cael ei adolygu i sicrhau bod yr angen am archwiliadau a'r rhesymeg drostynt yn rhan annatod o fframwaith y gwasanaeth</p>		
<p>Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig wneud yn siŵr bod niferoedd digonol o staff wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y cleifion.</p>	<p>25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol</p>	<p>Bu adran adnoddau dynol Regis Healthcare yn llwyddiannus iawn mewn ymgyrch recriwtio hir ac mae'n sicrhau bod yr holl aelodau newydd o'r staff yn cwblhau rhaglen sefydlu orfodol bythefnos o hyd sy'n cynnwys ffiniau proffesiynol, PMVA, iechyd a diogelwch, diogelu, anhwylderau bwyta, cymorth cyntaf pediatrig / argyfwng yn y gwaith, diogelwch yn yr ysbyty, cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Defnyddir matrices dysgu'r ysbyty i</p>	<p>Deborah Fry</p>	<p>05/04/2021 (parhaus)</p>

		<p>gofnodi'r hyfforddiant y mae'r staff wedi'i gwblhau. Mae'r ysbyty wrthi'n penodi darparwr e-ddysgu i gryfhau ein darpariaeth hyfforddiant drwy ddull dysgu cyfunol.</p> <p>Mae gennym 4 hyfforddwr mewnol sy'n gallu darparu Hyfforddiant Gosod Tiwb NG i Ymarferwyr Nyrsio Proffesiynol. Ar hyn o bryd, mae gennym 10 aelod o staff nyrsio sydd wedi'u hyfforddi i fwydo cleifion drwy diwb NG. Ein nod yw cyflwyno'r rhaglen hyfforddi hon i'r staff nyrsio erbyn 30 Ebrill 2021.</p>		
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ashburn Svinurai
06.04.2021

Swydd: Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: